Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Cyhoeddwyd yn
2022

Cynllun Peilot Grantiau Cymorth Bach i Fusnesau Cynnyrch Garddwriaethol Bwytadwy

Gwerthusiad gan Dr Amber Wheeler
ar ran Synnwyr Bwyd Cymru

Pys Plîs Mwy o Lysiau
Social Farms & Gardens Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
TYFU CYMRU GROW WALES
Cynghrair Gweithwyr y Tir Land Workers' Alliance Cymru
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
Cardiff & Vale HealthCharity Elusenlechyd Caerdydd a'r Fro

Cynnwys

3	Crynodeb
5	Cefndir
6	Cyd-destun: Covid-19
7	Ymgeiswyr
9	Dulliau Gwerthuso
10	Canfyddiadau penodol: Glasbren
12	Canfyddiadau penodol: Ash&Elm Horticulture
14	Canfyddiadau penodol: Gardd Furiog Angle
16	Canfyddiadau penodol: Troed y Rhiw
18	Canfyddiadau penodol: Henbant
20	Crynodeb o'r Effeithiau
21	TGRAINS
22	Grantiau Bach, Effaith Fawr
24	Gerddi a Ffermydd Cymdeithasol – sut allai'r cynllun gael ei weithredu
25	Canfyddiadau Eraill
26	Cyd-destun Polisi
26	Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion

Crynodeb

Yn 2021, gyda chyllid gan Pys Plîs ac wedi'i hwyluso gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, cynhaliodd Synnwyr Bwyd Cymru gynllun peilot grantiau bach i ariannu cyfarpar ar gyfer tyfwyr cynnyrch garddwriaethol ar raddfa fach yng Nghymru nad oeddent wedi cael llawer o gyfleoedd i fanteisio ar grantiau buddsoddi cyfalaf yn y gorffennol. Mae sector garddwriaeth fasnachol Cymru yn cynnwys nifer fawr o gynhyrchwyr bach, felly un ffordd o ehangu cynhyrchiant masnachol i ddiwallu'r angen yw drwy wneud y mwyaf o gynhyrchu ar raddfa fach. Y syniad a oedd yn cael ei brofi gan y cynllun peilot oedd y byddai ychydig o fuddsoddiad yn y sector hwn yn mynd ymhell o ran cynyddu gwerthiant llysiau ac felly'n helpu i gynyddu'r llysiau a fwyteir mewn cymunedau ledled Cymru.

Roedd swm bach o arian ar gael – dim ond £20,000, ond mewn cyfnod ymgeisio o 22 diwrnod daeth 21 o geisiadau i law, sy'n dangos yr angen am y cynllun. Roedd ceisiadau pum tyfwr yn llwyddiannus a gwariwyd y grantiau ar brynu 2 dwnnel polythen, 2 sied bacio, twll turio a thurniwr rhesi compost. Dangosodd gwerthusiad o'r cynllun peilot grantiau cyfalaf bach fod y grantiau bach hyn wedi cael effaith fawr ar y tyfwyr. Cynyddodd gwerthiant llysiau **74.5%** ar gyfartaledd, gydag ystod (o'r rhai a oedd wedi gwario'r grant yn llwyddiannus) o rhwng 30% a 133%. Yn gyffredinol, roedd **79 o deuluoedd ychwanegol** yr wythnos yn elwa o focs llysiau.

Roedd y manteision i'r gymuned yn glir. Yn ogystal â thyfu mwy o lysiau mewn ffordd gynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru, gwelsom welliant yn amgylchedd gwaith y gwirfoddolwyr, cynnydd yng ngallu tyfwyr i gynnal ymweliadau addysgol a digwyddiadau cymunedol a mwy o lysiau'n mynd i deuluoedd ar incwm isel.

Roedd manteision amgylcheddol hefyd gan gynnwys gwelliant mewn bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, mwy o gynhyrchiant, mwy o effeithlonrwydd a llai o wastraff a mwy o wydnwch yn wyneb prinder dŵr.

Yn 2020 canfu Astudiaeth waelodlin Tyfu Cymru fod tua 200 o fusnesau cynnyrch garddwriaethol bwytadwy yng Nghymru, er bod mwy erbyn hyn. Yn 2020 amcangyfrifwyd bod y busnesau hynny'n cynhyrchu ¼ dogn o ffrwythau a llysiau y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cynllun peilot hwn, gallai cynllun grantiau ar raddfa fach gynyddu hyn yn sylweddol ac arwain at gynnydd o 74.5% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn gwerthiant llysiau yng Nghymru.

Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i ddatblygu peilot mwy o gynllun seilwaith grantiau bach ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru. Byddai hyn yn cyflymu twf y sector garddwriaeth graddfa fach yn sylweddol - ac yn cynyddu gwerthiant llysiau yn ogystal ag arwain at fanteision cymunedol ac amgylcheddol ehangach ledled Cymru.

I ddysgu mwy am yr astudiaeth hon, gallwch wrando ar bodlediad diweddaraf Synnwyr Bwyd Cymru sy'n cael ei gyflwyno gan Dr Amber Wheeler ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r busnesau a dderbyniodd gefnogaeth wrth iddyn nhw drafod effeithiau a chanlyniadau'r prosiect.

Grantiau bach, Effaith fawr.

£20k
5 tyfwr

79 o deuluoedd ychwanegol yn derbyn bocs llysiau wythnosol*

74.5%
Y cynnydd cyfartalog mewn gwerthiant llysiau yn sgil y 4 grant a wariwyd yn llawn:

Manteision amgylcheddol

Gwelliant mewn bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, mwy o gynhyrchiant, mwy o effeithlonrwydd a llai o wastraff, mwy allu i wrthsefyll prinder dŵr.

Manteision i'r gymuned

Tyfu mwy o lysiau mewn ffordd gynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru, gwelliant yn amgylchedd gwaith y gwirfoddolwyr, cynnydd yng ngallu tyfwyr i gynnal ymweliadau addysgol a digwyddiadau cymunedol a mwy o lysiau'n mynd i deuluoedd incwm isel.

2 Dwnnel Polythen

2 Sied Bacio

1 Twll Turio

1 Turniwr Rhesi Compost

Argymhellion

Mae angen cynllun grant bach newydd yn ymwneud â seilwaith pwrpasol ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru – byddai'n cyflymu twf y sector yn sylweddol ac yn arwain at gynyddu gwerthiant llysiau yn ogystal â manteision cymunedol ac amgylcheddol ehangach.

*Roedd mwy o lysiau'n cael eu tyfu gan ddefnyddio egwyddorion permaddiwylliant ac felly'n creu mwy o fioamrywiaeth ac iechyd y pridd ar y tir. Roedd mwy o effeithlonrwydd wrth bacio a storio yn golygu llai o wastraffu llysiau. Roedd storio oer hefyd yn golygu y gellid storio glutiau a'u defnyddio dros gyfnod hirach o amser gan leihau'r risg o beidio â gwerthu'r cynnyrch i gyd ar unwaith ac o wastraff.

Cefndir

Fel rhan o'i gwaith i sicrhau bod bwyd a ffermio cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus, fe wnaeth Synnwyr Bwyd Cymru dreialu cynllun grantiau bach i dyfwyr cynnyrch garddwriaethol bwytadwy ar raddfa fach (llai na 5 ha) yng Nghymru. Nod y grantiau oedd ariannu cyfarpar a seilwaith (fel siediau pacio a thwneli polythen). Ariannwyd y gwaith gan Pys Plîs, rhaglen a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y DU ac y mae cynyddu'r llysiau a fwyteir yn brif nod iddi.

Roedd y rhesymeg ar gyfer y cynllun peilot yn seiliedig ar dystiolaeth bod garddwriaeth, yn enwedig cynhyrchwyr ar raddfa fach, wedi bod yn brin o adnoddau yn hanesyddol gan fod cynhyrchwyr sy'n gweithio ar dir llai na 5 hectar wedi bod yn llai cymwys i gael grantiau neu gymhorthdal gan y Llywodraeth. Roedd Synnwyr Bwyd Cymru eisiau profi a gwerthuso'r gwahaniaeth y gallai grantiau cyfalaf bach eu gwneud i gynhyrchu garddwriaethol, ac yn benodol a allai'r grantiau arwain at gynyddu gwerthiant ffrwythau a llysiau mewn cymunedau ledled Cymru.

Dewiswyd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, o ystyried hanes y mudiad o weinyddu cynlluniau grant i gynhyrchwyr bach yng Nghymru, a'i wybodaeth am anghenion y sector, yn enwedig Cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG), fel partneriaid i weinyddu'r grantiau.

Fe wnaeth ymdrin â materion yn ymwneud â chyllidwyr, sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y partïon, cytuno ar feini prawf ymgeisio, hysbysebu'r grantiau, derbyn ceisiadau, eu gwerthuso yn ôl eu teilyngdod ar gyfer y panel, trefnu asesiad gan y panel, derbyn arian gan y cyllidwr a chysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus a phrynu eu heitemau yn ogystal â monitro/asesu'r broses yn barhaus.

Dim ond **£20k** oedd y cyfanswm a oedd ar gael ar gyfer y cynllun grantiau ac fe'i hysbysebwyd am 22 diwrnod o'r 9fed tan y 30ain o Dachwedd 2020 ond yn ystod y cyfnod byr hwnnw daeth 21 o geisiadau i law. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr beth yr oeddent yn gwneud cais amdano a sut y byddai'r grant yn helpu i gynyddu eu cynhyrchiant a'u cwsmeriaid. O ystyried bod cyfalaf yn broblem i'r sector, gan fod elw yn aml yn fach, cynigiodd y cynllun grantiau 100% o gyllid i amrywiaeth o dyfwyr. Casglwyd data gwaelodlin ar y swm a gynhyrchir bob blwyddyn a'r trosiant blynyddol o werthiant ffrwythau a llysiau. Fel rhan o'r broses sifftio cafodd 5 cais eu gwrthod oherwydd eu bod yn anghyflawn neu am nad oeddent yn cyd-fynd ag amcanion y grant.

Y cyd-destun:

Covid-19

Digwyddodd y gwaith o weinyddu'r grantiau, eu dyrannu, y buddsoddiad mewn cyfalaf a'r gwerthusiad i gyd yn ystod y pandemig Covid.

Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw gan gymunedau ledled Cymru am ffrwythau a llysiau gan ddarparwyr lleol oherwydd y tarfu ar gadwyni cyflenwi arferol a chyfyngiadau'r cyfnod clo. Yn ôl ymchwil a wnaed yng Nghymru gwelodd y rhan fwyaf o dyfwyr gynnydd sydyn a sylweddol yn y galw am eu cynnyrch a barhaodd y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o brynu mewn panig. Ategir hyn gan ffigurau Pys Plîs sy'n dangos y bu cynnydd o 111% mewn gwerthiannau cynlluniau bocsys llysiau ledled y DU ar ddechrau'r pandemig (Mawrth-Mai 2020) ac er bod gwerthiannau bocsys llysiau rhwng mis Mai a mis Tachwedd wedi gostwng 18%, gwelwyd cynnydd o 65% yn gyffredinol o fis Chwefror i fis Tachwedd 2020.

Ar yr un pryd â'r cynnydd yn y galw, cododd problemau o ran cael gafael ar weithwyr gan nad oedd y llwybrau arferol, er enghraifft gweithwyr o dramor (fel gwirfoddolwyr Worldwide Opportunities on Organic Farms (WWOOFers) a gweithwyr eraill) ar gael. Roedd hyn yn golygu bod cynhyrchwyr dan bwysau sylweddol oherwydd y cynnydd yn y galw a llai o gapasiti ac roedd llawer yn brin iawn o weithwyr ac yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am effaith Covid ar weithwyr yn y Arolwg Monitro Llafur Tyfu Cymru 2020.

Chwaraeodd llawer o gynlluniau bocsys llysiau eu rhan yn yr ymateb i Covid drwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli yn yr awyr agored a oedd yn ddiogel o ran Covid, addysg a ryseitiau, cymorth ac atgyfeirio ar gyfer iechyd meddwl, a rhoddion o gynnyrch ffres i bobl mewn angen.

Mewn llawer o achosion roedd y cyfnod hwn wedi ysgogi arloesi megis gwella cyfleusterau pacio a systemau archebu ar-lein.

Yr ymgeiswyr

Cyflwynwyd 16 o geisiadau gerbron panel a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Synnwyr Bwyd Cymru, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Tyfu Cymru a Chynghrair Gweithwyr y Tir. Cafwyd pedwar cais i osod siediau pacio gyda chyfleusterau golchi llysiau, pedwar cais i ehangu'r ardal amaethu awyr agored, tri chais i godi/adfer twneli polythen, dau gais i ehangu ystafelloedd ffrwytho ar gyfer tyfu madarch, dau gais ar gyfer peiriannau neu gyfarpar ac un i osod twll turio.



Lleoliad Awdurdod Lleol

- 19% o Sir Gaerfyrddin*
- 6% o Geredigion*
- 12% o Wynedd
- 12% o Sir Fynwy
- 26% o Sir Benfro*
- 19% o Bowys*
- 6% o Abertawe



Yr amser ers eu sefydlu

- Roedd 38% wedi bod weithredol am rhwng 1 a 2 flynedd
- 19% rhwng 5 a 10 mlynedd
- 19% yn newydd neu wedi'u sefydlu ers llai na blwyddyn
- 12% rhwng 2 a 5 mlynedd a
- 12% wedi bod yn weithredol ers mwy na 10 mlynedd



Lle tyfu

- Roedd 44% yn tyfu cynnyrch ar 1 erw neu lai
- 38% ar rhwng 1.5 a 5 erw
- 12% ar 5 i 10 erw
- 6% ar 10 i 15 erw.

Mae * yn dynodi bod ardaloedd yr Awdurdodau Lleol hyn ymysg y 10 Awdurdod Lleol sydd â'r cyfraddau tlodi plant uchaf yng Nghymru.

Y bwriad gwreiddiol oedd cefnogi 4 tyfwr gyda £5k yr un, ond roedd y ceisiadau'n gryf iawn ac nid oedd pob un yn gofyn am y swm llawn (ac roedd rhai yn fodlon derbyn gostyngiad) felly roedd modd ariannu un arall. Y pum ymgeisydd llwyddiannus a ddewiswyd gan banel oedd:

- Glasbren (Fferm Bronhaul)
- Ash & Elm Horticulture
- Gardd Furiog Angle
- Troed y Rhiw Organics
- Henbant Permaculture (Seabear Limited)

Gwynedd

Henbant Permaculture (Seabear Limited)
Cynnig grant: £4,375
Eitemau: Sied Pacio a Storio

Ceredigion

Troed y Rhiw Organics
Cynnig grant: £4,375
Eitemau: Turniwr Rhesi Compost

Powys

Ash & Elm Horticulture
Cynnig grant: £4,375
Eitemau: Twll Turio

Sir Gâr

Glasbren (Fferm Bronhaul)
Cynnig grant: £2,500
Eitemau: Estyniad i sied bacio ac Ailorchuddio Twnnel Polythen

Sir Benfro

Gardd Furiog Angle
Cynnig grant: £4,375
Eitemau: Twnnel polythen

Dulliau Gwerthuso

Nod y peilot oedd profi a gwerthuso'r gwahaniaeth y gall grantiau cyfalaf bach ei wneud i gynhyrchwyr cynnyrch garddwriaethol bwytadwy, ac yn benodol a allant arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant a gwerthiant llysiau. Gwerthuswyd effaith y grant gan yr ymchwilydd, drwy sefydlu lefelau cynhyrchu gwaelodlin a lefelau cynhyrchu ar ôl cael y grant yn ogystal ag effeithiau ehangach drwy gasglu data ansoddol. Roedd y gwerthusiad ar ffurf ymweliadau â safleoedd a chyfweliadau lled-strwythuredig, ar ôl i'r ymgeisydd brynu'r eitemau neu wneud y gwaith a ariannwyd gan y grant. Yn ymarferol, ac oherwydd y cyfyngiadau yn sgil Covid, cynhaliwyd ymweliadau â safleoedd rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2021 ac ategwyd y rhain gan geisiadau drwy e-bost am ragor o wybodaeth.

Canfyddiadau penodol:

Glasbren

Swm y Grant: £2500

Prosiect Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned sy'n tyfu cynnyrch ar 2 erw ac sy'n darparu bocsys llysiau wythnosol i fwy na 40 o deuluoedd. Wedi'i sefydlu ers 3 blynedd.

Grant ar gyfer: Estyniad i'r sied bacio ac ail-orchuddio twnnel polythen

www.glasbren.org.uk

Crynodeb o Wariant y Grant:

Roedd yr estyniad i'r sied bacio yn dangos dyfeisgarwch a defnydd trawiadol o gyllid cyfyngedig, deunyddiau cynaliadwy ac wedi'u hailgylchu (er enghraifft teils to wedi'u gwneud o hen welingtons) i greu gofod trefnus ar gyfer pacio llysiau, ardal oer, ardal prosesu llysiau ac ardal i wirfoddolwyr. Roedd y twnnel polythen ychwanegol wrthi'n cael ei adeiladu adeg yr ymweliad. Yn gyffredinol, roedd y gwariant grant a'r canlyniad yn cynrychioli gwerth da am arian, yn rhannol seiliedig ar y defnydd o ddeunyddiau wedi'u hadfer ond hefyd ar allu'r tyfwyr i droi eu llaw at waith adeiladu.

Mwy o gynhyrchiant/Cynnydd mewn gwerthiant:

Roedd y prosiect AGG wedi gallu bod yn fwy trefnus yn sgil y ffaith bod ganddo fwy o le a lle ar gyfer mwy o focsys. Roedd hyn wedi hwyluso'r broses bacio yn sylweddol ac wedi lleihau gwastraff. Roedd y cynnydd hwn mewn effeithlonrwydd wrth bacio yn rhoi mwy o amser i'r tyfwyr ganolbwyntio ar gynhyrchu. Yn sgil y gorchudd twnnel polythen ychwanegol, estynnodd y tymor tyfu o 26 i 33 wythnos. Cynyddodd y cynhyrchiant llysiau 20% a chynyddodd y swm o'u cynnyrch eu hunain yn y bocsys o 60 i 80%. Cynyddodd aelodau'r cynllun Bocs Llysiau o 40 i 62. Hwyluswyd y cynnydd hwn o 55% yn fawr gan y grant.

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Effaith ar y Gymuned:

Drwy gydol y cyfnod clo roedd grŵp rheolaidd o wirfoddolwyr o'r gymuned leol yn mynychu'n wythnosol. Roedd gwella ac ehangu'r sied bacio yn golygu bod profiad y gwirfoddolwyr wedi gwella'n sylweddol ac roedd y prosiect AGG yn gallu gofalu amdanynt yn well, e.e. gyda chyfleusterau gwneud te a choffi a seddi dan do. Mae'r prosiect AGG yn gobeithio defnyddio'r gofod hwn i hwyluso gweithgareddau addysgol a digwyddiadau cymunedol ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Darparodd y prosiect AGG hefyd focsys cymorth (bocsys wedi'u hariannu ar gyfer pobl ar incwm isel – gweler) a chyflenwi llysiau i sefydliadau lleol (gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi pobl gyda'u hiechyd meddwl) a chaffis yn y dref leol. Fe wnaeth y grant gynyddu'r gallu i wneud hyn.

Effaith ar yr Amgylchedd:

Roedd y ffrwythau a'r llysiau'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio egwyddorion paramaethu, sy'n arwain at lefelau uchel o fioamrywiaeth ac iechyd pridd da. Roedd defnydd helaeth hefyd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio i leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae ehangu'r llysiau sy'n cael eu tyfu gan ddefnyddio'r dull ffermio hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

Canfyddiadau penodol:

Ash & Elm Horticulture

Swm y Grant: £4,375

Menter Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned oddi ar y grid sy'n tyfu cynnyrch ar 5 erw ac yn eu gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac i fusnesau. Wedi'i sefydlu ers 9 mlynedd.

Grant ar gyfer: Twll turio

www.ashandelmhorticulture.co.uk

Crynodeb o Wariant y Grant:

Roedd gosod y twll turio ar gyfer y busnes hwn yn drawsnewidiol. Er ei fod wedi'i sefydlu ers 9 mlynedd ar 5 erw, arferwyd gwneud yr holl ddyfrio gyda dŵr glaw a dim ond digon o le i storio 20,000 litr oedd ganddo - digon i bara 3 wythnos heb law. Yn ystod haf 2020 roedd y busnes yn brin o ddŵr a chollodd gnwd mefus o ganlyniad a chafodd y tyfwyr eu gorfodi i deithio 4 milltir i gael dŵr gan dreulio'r rhan fwyaf o'r amser yn dyfrio yn hytrach na datblygu'r busnes. Roedd gosod y twll turio yn datrys y broblem hon. Roedd y ffaith eu bod dan lai o straen a bod ganddynt fwy o amser yn golygu bod modd i'r busnes ganolbwyntio mwy ar gynhyrchu a marchnata. Costiodd y twll turio mwy na'r grant ond cyfrannodd y busnes arian cyfatebol ei hun i dalu gweddill y gost. Er bod gallu'r busnes i dyfu yn y tymor byr wedi'i hwyluso'n fawr, mae'r twll turio hefyd yn debygol o arwain at fwy o dwf yn yr hirdymor.

Mwy o gynhyrchiant/Cynnydd mewn gwerthiant:
Roedd y cyflenwad dŵr sefydlog yn eu galluogi i ddyfrio mwy ac felly cynyddodd swm y cynnyrch. Fe wnaeth hefyd arbed cryn dipyn o amser i'r tyfwyr a oedd yn gallu canolbwyntio mwy ar gynhyrchu a marchnata. Dyblodd cwsmeriaid y bocsys llysiau o 10 i 20. Cynyddodd trosiant y busnes o £18k yn y flwyddyn ariannol flaenorol i £23,500 rhwng mis Ebrill 2021 a mis Rhagfyr 2021 gyda chwarter y flwyddyn i fynd. Mae'n debygol na fyddai 30% o leiaf o'r cynnydd mewn trosiant wedi bod yn bosibl heb y grant hwn.

Effaith ar y Gymuned:
Roedd gosod y twll turio yn golygu bod modd creu meithrinfa ar y safle sy'n gwerthu planhigion yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Cynyddodd hyn nifer yr aelodau o'r cyhoedd a oedd yn dod i'r safle i brynu planhigion. Roedd bocsys cymorth hefyd yn cael eu cyflenwi i bobl ar incwm isel (Gweler). Pan fydd cyfyngiadau Covid yn cael eu codi bydd mwy o wirfoddolwyr yn gallu cael mynediad i'r safle a'i ddefnyddio, er enghraifft pobl ag anawsterau dysgu, ac mae digwyddiadau addysgol a chymunedol yn fwy tebygol o gael eu cynnal yno bellach.

Effaith ar yr Amgylchedd:
Mae cael twll turio yn golygu bod y busnes yn llai tebygol o ddioddef prinder dŵr ac yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a chyfnodau o dywydd sych yn y dyfodol. Mae hefyd wedi golygu bod y tir sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu llysiau drwy ddull amaeth-ecolegol, gyda'i fanteision i fioamrywiaeth ac iechyd y pridd, wedi'i ehangu.

Canfyddiadau penodol:

Gardd Furiog Angle

Swm y Grant: £4,375

Gardd furiog ganoloesol sy'n tyfu amrywiaeth draddodiadol o gynnyrch gyda'r amgylchedd a chynaliadwyedd wrth galon ei harfer. Sefydlwyd yr ardd ddwy flynedd 'nôl gan dyfu cnydau ar 6 erw a gwerthu cynnyrch drwy gynllun bocsys llysiau, gwerthiannau uniongyrchol ger gât y fferm ac i fwytai lleol.

Grant ar gyfer: Twnnel polythen

www.anglewalledgarden.co.uk

Crynodeb o Wariant y Grant:
Gwariwyd y grant tuag ar adeiladu twnnel polythen 30tr x 80tr gan gynyddu'r gofod tyfu dan do yn sylweddol ac a hwyluso cynhyrchu llysiau a salad drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â gweithredu fel man storio ar gyfer pwmpenni cnau menyn yn y gaeaf a darparu lle i bacio bocsys llysiau. Roedd y ffordd y gwariwyd y grant a'r canlyniad yn cynrychioli gwerth da am arian gan ei fod wedi'i ariannu'n rhannol a'i adeiladu gan y busnes ei hun.

Mwy o gynhyrchiant/Cynnydd mewn gwerthiant:
Bu'r tymor tyfu a gwerthu estynedig yn fodd o ddarparu amrywiaeth drawiadol o lysiau, gan gynnwys amrywiadau treftadaeth, i'r gymuned leol dwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu incwm dros y gaeaf. Cafodd y tymor tyfu ei ymestyn 5 mis. Roedd hyn yn golygu bod mwy o lysiau'n cael eu cyflenwi a'u gwerthu drwy focsys llysiau (cynnydd o 5 i 12 bocs yr wythnos), bwytai ac wrth gât y fferm – mewn stondin fechan ar y ffordd fawr. Cynyddodd y trosiant gwerthu llysiau o £5k yn y flwyddyn ariannol flaenorol i tua £9K (Ebrill-Tachwedd 2021) gyda 4 mis o'r flwyddyn i fynd. Fe wnaeth ychwanegu'r twnnel polythen gyfraniad mawr at y cynnydd hwn o 80% mewn gwerthiant llysiau.

Effaith ar y Gymuned:

Roedd cael stondin ar ochr y ffordd mewn man amlwg ar ffordd a ddefnyddir gan bobl leol a phobl ar eu gwyliau fel ei gilydd yn golygu bod mwy o ffrwythau a llysiau a blodau ar gael ac yn cael eu gwerthu yng nghalon y gymuned wledig leol. Ymhen amser mae'r busnes yn gobeithio gwahodd y gymuned i'r safle ar gyfer cyrsiau addysg ond byddai hyn yn gofyn am fuddsoddi mewn cyfleusterau ychwanegol megis mannau parcio.

Effaith ar yr Amgylchedd:

Mae'r ffaith bod mwy o dir yn cael ei drin gan ddefnyddio egwyddorion organig a dim cloddio yn debygol o arwain at fwy o fioamrywiaeth a gwella iechyd y pridd.

Canfyddiadau penodol:

Troed y Rhiw

Swm y Grant: £4,375

Fferm organig gymysg sefydledig sydd wedi bod yn tyfu ffrwythau a llysiau ers 12 mlynedd ar 15 erw, gan fwydo 50 o gartrefi (cyn covid) drwy gynllun bocsys llysiau, yn ogystal â gwerthu mewn marchnad ffermwyr lleol a stondin ar y safle.

Grant ar gyfer: Turniwr rhesi compost

www.troedyrhiwfarm.co.uk

Crynodeb o Wariant y Grant:

Oherwydd prinder rhannau, o ganlyniad i Covid, nid oedd y turniwr rhesi compost yn weithredol adeg yr ymweliad (Rhagfyr 2021). Fodd bynnag, roedd y brif ran newydd gyrraedd ac yn barod i gael ei gosod ar y peiriant a oedd yn cael ei adeiladu'n arbennig gan fecanig o Gymru. Pan fydd y turniwr compost ar waith, bydd y fferm yn gallu treblu'r compost y mae'n ei wasgaru y flwyddyn o 30t i 90t gan arbed swm sylweddol o amser i'r tyfwr. Ar hyn o bryd mae'r tyfwr yn troi pentwr compost 30 gwaith y flwyddyn drwy ei symud o un pentwr i'r llall gyda bwced tractor. Bydd y system newydd yn golygu y bydd y pentwr yn aros yn yr un lle a bydd y turniwr compost yn symud dros y pentwr gan ei droi wrth iddo fynd yn ei flaen gan arbed swm sylweddol o amser i'r tyfwr y gall ei dreulio'n canolbwyntio ar dyfu a marchnata.

Mwy o gynhyrchiant/Cynnydd mewn gwerthiant:
Roedd gan y busnes fferm hwn drosiant uchel eisoes o werthu llysiau (£51,085 y flwyddyn). Cynyddodd y gwerthiannau bocsys llysiau o 50 cyn Covid i 130 erbyn mis Tachwedd 2020 ac i 190 erbyn mis Mai 2021 gan sefydlogi ar tua 115 o focsys yr wythnos. Roedd hyn yn ychwanegol at werthiannau yn y farchnad ffermwyr. Ni ellir priodoli'r cynnydd hwn mewn gwerthiant i'r grant gan nad oedd wedi'i wario eto. Fodd bynnag, pan fydd y turniwr compost yn gweithio, bydd y tyfwr yn arbed llawer iawn o amser a fydd yn rhyddhau amser i ganolbwyntio ar gynhyrchu a gwerthu.

Effaith ar y Gymuned:
Gwell iechyd pridd a bioamrywiaeth ar y fferm er budd y gymuned leol.

Effaith ar yr Amgylchedd:
Y gobaith yw y bydd y compost ychwanegol a fydd yn cael ei greu gan y turniwr compost yn golygu na fydd unrhyw gynnydd yng ngwerthiant llysiau a chynyddu cynhyrchiant yn andwyol i bridd y fferm a'r gobaith yw y bydd yn arwain at wella ffrwythlondeb y pridd a bioamrywiaeth a fydd yn gwella cynaliadwyedd a chynhyrchiant a'r gallu i fwydo mwy o gwsmeriaid yn yr hirdymor. Mae'r fferm yn aml yn croesawu ffermwyr eraill (pan ganiateir hynny), y mae gan lawer ohonynt ddiddordeb mewn arallgyfeirio, a thyfwyr sy'n dod i weld arfer da o ran cynhyrchu llysiau organig ar raddfa cae ac felly mae ariannu'r cyfarpar hwn yn debygol o arwain at ledaenu gwybodaeth am greu compost da a chynnal ffrwythlondeb y pridd a bioamrywiaeth yn ehangach yng Nghymru.

Canfyddiadau penodol:

Henbant

Swm y Grant: £2500

Prosiect AGG a sefydlwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl ar fferm paramaethu cymysg 80 erw - sy'n tyfu llysiau ar 1.5 erw ac yn cyflenwi bocsys llysiau i 30 o deuluoedd. Enghraifft wych o system fferm gymysg.

Grant ar gyfer: Sied lysiau ar gyfer storio/pacio/hyb i gwsmeriaid

www.henbant.org

Crynodeb o Wariant y Grant:
Roedd y grant wedi galluogi'r prosiect i adeiladu sied fawr ddeniadol gydag ardal waith a siop fach yn ogystal â storfa oer fawr, man pacio a gorsaf olchi. Talodd y grant am gost deunyddiau ac roedd y ffaith bod y tyfwr yn gallu troi ei law at waith adeiladu, yn ogystal â defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hadfer e.e. storfa oer ail law, yn sicrhau gwerth am arian. Daeth yr arian i ben cyn i'r sied bacio gael ei chwblhau'n llawn ond roedd y sied yn gweithio'n dda, yn gweithredu fel siop a man croesawgar i gwsmeriaid a oedd yn fwy abl i alw heibio'r fferm i brynu eitemau.

Mwy o gynhyrchiant/Cynnydd mewn gwerthiant:
Cynyddodd y bocsys o 30 i 70 bocs yr wythnos erbyn mis Rhagfyr 2021 (cynnydd o 133%) a hwyluswyd hyn yn fawr gan y sied newydd, yn wir dywedodd y tyfwr y byddai hyn wedi bod yn amhosibl hebddi. Roedd yna hefyd werthiannau ychwanegol drwy'r siop.

Effaith ar y Gymuned:

Roedd mwy o aelodau'r gymuned yn defnyddio'r fferm ac roedd llawer o wirfoddolwyr yn elwa o ddefnyddio'r siop a'r cyfleusterau. Roedd mwy o lysiau ar gael yn y gymuned leol, drwy'r cynllun bocsys a hefyd i'r rhai ar incwm isel drwy'r banc bwyd lleol a thrwy gynllun bocsys cymorth. Roedd y fferm yn awyddus i aelodau'r gymuned gael profiad da wrth ddod i weithio ar y fferm ac yn sicr fe wnaeth y sied wella hyn.

Effaith ar yr Amgylchedd:

Roedd mwy o lysiau'n cael eu tyfu gan ddefnyddio egwyddorion paramaethu gan gynyddu'r tir â mwy o fioamrywiaeth a gwella iechyd y pridd. Roedd y gallu i fod yn fwy effeithlon wrth bacio a storio yn golygu bod llai o lysiau'n cael eu gwastraffu. Roedd storfa oer hefyd yn golygu y gellid cadw cynnyrch dros ben a'i ddefnyddio dros gyfnod hwy o amser gan leihau'r risg o beidio â gwerthu'r cynnyrch i gyd ar unwaith a lleihau gwastraff.

Crynodeb o'r Effeithiau

Cynnydd mewn gwerthiant ffrwythau a llysiau a mwy o gwsmeriaid

Arweiniodd pob grant ond un (gan nad oedd y cyfarpar yn gweithio eto a'i fod yn gysylltiedig â gwella iechyd y pridd a chynaliadwyedd tymor hwy yn hytrach na gwerthiannau) yn uniongyrchol at gynnydd mewn gwerthiant llysiau o 30% i 133%. Y cynnydd cyfartalog, heb y grant nad oedd eto wedi'i wario'n llawn, oedd 74.5%.

Mwy o effaith ar y gymuned

Gwariwyd yr holl grantiau hyn ar gyflenwi mwy o lysiau a llysiau sy'n fwy cynaliadwy i gymunedau lleol yng Nghymru. Fe wnaeth pedwar o blith pump wella'r amgylchedd gwaith i wirfoddolwyr a chynyddu gallu tyfwyr i gynnal ymweliadau addysgol a digwyddiadau cymunedol yn y dyfodol. Roedd tri o bob pump yn darparu bocsys cymorth i deuluoedd ar incwm isel yn eu hardaloedd (Gweler TGRAINS isod) yn ogystal â chysylltu ag elusennau bwyd lleol.

Mwy o effaith ar yr amgylchedd

Arweiniodd yr holl grantiau at gefnogi cynhyrchiant sy'n anelu at wella bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, gydag un o'r grantiau'n canolbwyntio'n benodol ar wella iechyd y pridd. Arweiniodd gwell cyfleusterau pacio a storio, yn yr astudiaethau achos lle y cawsant eu rhoi ar waith, at fwy o effeithlonrwydd a llai o wastraff. Defnyddiwyd un o'r grantiau i gynyddu'r gallu i wrthsefyll prinder dŵr a chyfnodau o dywydd sych oherwydd newid yn yr hinsawdd.

TGRAINS:

Gwybodaeth am brosiect Llysiau Hygyrch TGAINS

Yn seiliedig ar ganlyniadau prosiect **TGRAINS** yn dangos effaith cynlluniau bocsys llysiau AGG ar ddeiet iach a chynaliadwy, aethom ati i archwilio sut i ehangu'r manteision hynny i aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd yn ein prosiect peilot a lansiwyd ym mis Mehefin 2021, gyda chymorth ariannol gan UWE Bryste, Prifysgol Caerdydd, WWF Cymru a Synnwyr Bwyd Cymru. Sefydlwyd y prosiect Llysiau Hygyrch i ddarganfod ffyrdd o wella bwyta'n iach ymhlith cartrefi sy'n wynebu ansicrwydd bwyd. Mae'n ffaith hysbys y gall llysiau ffres fod yn rhai o'r bwydydd drutaf i'w prynu o ran calorïau. Fodd bynnag, anaml y mae parseli cymorth bwyd yn cynnwys llysiau ffres. O ganlyniad, mae cartrefi sy'n wynebu ansicrwydd bwyd yn aml yn ei chael hi'n anodd iawn cynnwys llysiau ffres yn eu deiet. Mae'r prosiect hwn yn ceisio cefnogi cartrefi sy'n wynebu ansicrwydd bwyd i gael llysiau ffres drwy aelodaeth â chymhorthdal o'r cynllun bocsys llysiau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned (AGG).

Yn Llysiau Hygyrch, rydym yn gweithio gyda 4 fferm AGG a fynegodd ddiddordeb mewn archwilio modelau cymorth ar gyfer gwneud eu llysiau yn hygyrch i gartrefi sy'n wynebu ansicrwydd bwyd; mae'r ffermydd hynny wedi ffurfio partneriaeth ag elusennau bwyd lleol. Mae tri deg wyth o gartrefi wedi cael bag llysiau wythnosol am gyfnod o 2-4 mis. Bu'r tîm ymchwil yn cyfweld â chyfranogwyr ac yn casglu dyddiaduron bwyd 3 diwrnod ar ddechrau'r prosiect ac maent wrthi'n cyfweld â chyfranogwyr eto a chasglu dyddiaduron bwyd 3 diwrnod cyn diwedd tymor y cynhaeaf. Mae rhai gwersi defnyddiol iawn eisoes wedi'u dysgu am heriau a pha weithgareddau all gefnogi aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd sy'n profi manteision iechyd derbyn bag llysiau wythnosol.

Mae'r prosiect peilot eisoes wedi ennyn cryn ddiddordeb ymysg Gweinidogion Cymru gyda dau ymweliad gwahanol â'n partneriaid fferm, Graeme Wilson a Polly Davies yn Slade Farm.

Mae Dr Angelina Sanderson Bellamy (Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste) yn cydweithio â Dr Caroline Verfuerth yng Nghanolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd a ariennir gan yr ESRC.

Grantiau Bach Effaith Fawr

Small Grant, Big Impact

Er y cyfeiriwyd at hwn fel grant bach, yng ngeiriau un o'r tyfwyr ***'nid oedd yn teimlo fel grant bach i ni.'*** Roedd yn grant mawr i lawer o'r tyfwyr hyn gan eu galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith a oedd yn allweddol bwysig i dwf a chynaliadwyedd eu busnesau a'u gwerthiant llysiau. Mewn sawl achos nid oedd y tyfwyr hyn erioed wedi cael grant o'r blaen ac roeddent wedi arfer 'gwneud i ychydig fynd ymhell'. Ym mhob achos, roedd cost y seilwaith/cyfarpar yn fwy na swm y grant ond defnyddiodd y tyfwyr gymysgedd o ddyfeisgarwch, llafur rhydd a deunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hadfer er mwyn gwneud i'r grant fynd ymhellach – gan greu gwerth am arian o ran y canlyniad terfynol.

Roedd pob un o'r tyfwyr yn fusnesau teuluol a chanddynt elw bach, ac felly nid oeddent yn gallu buddsoddi yn y costau cychwynnol sylweddol sy'n gysylltiedig â busnesau o'r fath, fel y sy'n cael ei grynhoi yn y sylw hwn: ***'gan ein bod yn fusnes teuluol bach, gyda theulu ifanc, a chartref newydd, y ffactor sy'n cyfyngu ar gynhyrchu yw cyllid ar gyfer seilwaith allweddol'.*** Mae'r amcangyfrifon o gostau cychwynnol gan Gynghrair Gweithwyr y Tir (gweler y blwch) yn amrywio o £145,120 - £222,600. Mae diffyg cyllid ar gyfer y seilwaith hwn yn rhwystr i ffermio garddwriaethol yng Nghymru.

Cynghrair Gweithwyr y Tir

Mae Cynghrair Gweithwyr y Tir wedi creu enghreifftiau o gostau ar gyfer gwahanol fathau o newydd-ddyfodiaid i ffermio amaeth-ecolegol. Dyma restr enghreifftiol o gostau seilwaith ar gyfer gardd farchnad 3 erw, yn gwerthu cnydau gwerth uchel i gaffis a bwytai lleol. Mae'r enghraifft gyffredinol o gostau seilwaith yn sylweddol, ond mae llawer o fusnesau'n dechrau gyda llawer llai.

Eitem	Cost isel	Cost ganolig
Tractor 2 olwyn	£1,500	£4,000
Og pŵer ar gyfer tractor 2 olwyn	£1,000	£2,000
Peiriant ffustio ar gyfer tractor 2 olwyn	£1,000	£1,500
Aradr dro ar gyfer tractor 2 olwyn	£1,000	£1,500
Fan Dosbarthu Nwyddau	£2,000	£5,000
Twneli polythen 1250m2	£10,000	£25,000
Cyfarpar lluosogi	£2,000	£5,000
Goruchuddion cnydau, bagiau tywod, gorchuddion tir	£5,000	£10,000
Cyfarpar dyfrhau	£5,000	£10,000
Offer llaw amrywiol a mân bethau	£10,000	£15,000
Is-gyfanswm ar gyfer cyfarpar a thwneli polythen	**£38,500**	**£79,000**

Ysgubor brosesu / sied bacio 6m x 12m	£15,120	£25,200
Llawr caled 100m2	£1,500	£3,000
Trac 50m	£1,500	£3,000
Twll turio	£5,000	£10,000
Storfa oer	£1,000	£4,000
Ffensys i atal cwningod a cheirw 3 erw	£7,500	£8,400
Cysylltiad trydan	£5,000	£20,000
Is-gyfanswm gan gynnwys seilwaith	£75,120	£152,600
Cyfanswm gan gynnwys 9 erw o dir ar gost o £10,000/erw a chartref symudol sylfaenol wedi'i wneud o bren am £40,000	**£145,120**	**£222,600**

Cyflymu'r newid

Meddai un o'r tyfwyr: ***'Rydym yn gallu buddsoddi ychydig bob blwyddyn. Y llynedd fe wnaethom fuddsoddi mewn tractor bach ail-law sydd wedi bod yn wych. Yn anffodus, mae twf ein busnes, ac felly twf cynhyrchiant, yn boenus o araf i ni a'n cwsmeriaid ar y cyflymder hwn'.*** Roedd hwn yn ddyfyniad a gafodd ei adleisio gan eraill a ddywedodd fod angen iddynt fuddsoddi mewn seilwaith pellach er mwyn i'w busnesau dyfu'n gyflymach. Os yw Cymru o ddifrif ynglŷn â chefnogi ehangu garddwriaeth a chadwyni cyflenwi lleol, yna mae buddsoddi mewn seilwaith yn allweddol a bydd yn ffactor arwyddocaol i gyflymu'r newid. Dywedodd un tyfwr, a oedd yn ddigon mawr i gael grant busnes fferm, ***'Y llynedd buom yn ddigon ffodus i gael grant ar gyfer storfa oer ac fe wnaeth hynny chwyldroi'r ffordd yr ydym yn defnyddio llafur gan nad oes yn rhaid inni gasglu a phacio ar yr un diwrnod'.***

Cynllun grantiau bach pwrpasol newydd ar gyfer garddwriaeth

Mae Grantiau Busnes Fferm yng Nghymru ar gael i ffermwyr sy'n tyfu cnydau ar dros 3 ha (7.4 erw) ac sy'n derbyn cymorthdaliadau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant yn darparu uchafswm o 40% o gyfraniad tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau, sydd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i fentrau fferm. Rhaid i bob eitem fod yn newydd. Mae 42 o eitemau ar y rhestr yn ymwneud â ffermio gwartheg, 10 yn ymwneud â ffermio defaid, 4 yn ymwneud â ffermio moch, 13 ag âr, 6 â chyfarpar trydan/gwresogi/cyfrifiadur a 3 â chynaeafu dŵr glaw/ twll turio. Ar hyn o bryd efallai mai dim ond o'r eitemau casglu dŵr glaw/tyllau turio y gallai busnesau garddwriaeth elwa ohonynt. Mewn gwirionedd nid yw'r cynllun hwn yn addas iawn ar gyfer y sector garddwriaeth, hyd yn oed os oedd offer garddwriaeth ar y rhestr. Y rheswm am hyn yw'r lefel isel o gyfalaf sydd ar gael i'w fuddsoddi – mae canfod 60% o gost darn newydd o gyfarpar yn aml y tu hwnt i gyrraedd tyfwyr garddwriaeth ar raddfa fach, hyd yn oed os ydynt yn gymwys i gael grant. Mae'r adroddiad hwn yn argymell sefydlu cynllun grantiau bach garddwriaethol pwrpasol newydd sydd ar gael i bob busnes garddwriaethol sy'n tyfu cynnyrch ar lai na 3 ha. Byddai'r cynllun hwn yn elwa o ganiatáu i bobl brynu cyfarpar ail law a thalu hyd at 100% o gost yr offer. Gellid galluogi hyn drwy gael trydydd parti fel yr un a ddefnyddir yn y peilot hwn. Roedd cael trydydd parti profiadol sy'n wybodus am y sector – Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – o gymorth mawr gyda rhedeg y cynllun peilot hwn yn ddidrafferth ac yn golygu bod y broses yn effeithlon iawn. Nododd pob ymgeisydd pa mor hawdd oedd gwneud cais, gallu siarad â rhywun am y grant, gweinyddu'r grant - roedd y trydydd parti'n prynu'r cyfarpar a'i anfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd mewn sawl achos.

Social Farms & Gardens

Gallai cynllun grantiau bach pwrpasol newydd ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru edrych fel hyn:

£750k y flwyddyn am 5 mlynedd (£3.75m). 70 i 140 o grantiau £5k i £10k ar gael i fusnesau garddwriaeth ar sail gystadleuol, dim ond un grant fesul tyfwr y flwyddyn – felly uchafswm o £50k o fuddsoddiad cyfalaf ar gael fesul tyfwr dros gyfnod o 5 mlynedd.

Yn 2020 canfu Astudiaeth waelodlin Tyfu Cymru fod tua 200 o fusnesau cynnyrch garddwriaethol bwytadwy yng Nghymru, er bod mwy erbyn hyn. Yn 2020 amcangyfrifwyd bod y busnesau hynny'n cynhyrchu ¼ dogn o ffrwythau a llysiau y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cynllun peilot hwn, gallai cynllun grantiau ar raddfa fach gynyddu hyn yn sylweddol ac arwain at gynnydd o 74.5% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn gwerthiant llysiau yng Nghymru.

Mae angen gwell data ar symiau a gwerthiant. Gallai cyfraniad mewn nwyddau o gynllun grant olygu bod tyfwyr yn asesu ac yn monitro swm a gwerthiant llysiau, yn ogystal ag effaith hynny ar yr amgylchedd a'r gymuned gan helpu i werthuso'r effaith yn barhaus. Yma yng Nghymru, rydym ni yn Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn ymfalchïo mewn cefnogi, cynrychioli ac adnabod y sector bwyd cymunedol orau y gallwn. Mae gennym wasgariad daearyddol da o staff drwy ein tair swyddfa ranbarthol ac mae hyn yn golygu ein bod yn gallu dod i adnabod y rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad yn eithaf da. Er bod ein sector yn amrywiol, rydym i gyd yn ymwybodol iawn o'r problemau a'r anawsterau yn ogystal â'r cyfleoedd y mae ein haelodau'n eu hwynebu.

Roeddem yn falch iawn o gael ein gwahodd i fod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn, daeth ag ystod o bartneriaid ynghyd, a oedd wedi nodi angen, a rhai o'r rhwystrau. Cyfunodd y partneriaid eu hadnoddau cyfyngedig i roi'r prosesau ar waith mewn modd amserol, ond proffesiynol, ond efallai mai'r elfen fwyaf dymunol yw gweld y canlyniadau y gall hyd yn oed swm bach o gyllid cyfalaf eu cael o ran allbynnau.

Ar ôl cael cyllid yn y gorffennol (mae'n anodd iawn dod o hyd i'r math hwn o gyllid refeniw hyblyg) i gefnogi swyddog cyllido penodedig, roeddem yn llwyr ymwybodol o'r rhwystrau sy'n atal rhai safleoedd rhag denu cymorth gan y llywodraeth neu gymorth grant. Er mwyn goresgyn y rhwystrau hynny roedd yn rhaid i ni fod yn greadigol ac ymgysylltu â'r cyllidwyr i gydnabod y problemau.

Rydym yn awyddus iawn i gefnogi'r math hwn o waith eto, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio'n galed gyda'r partneriaid i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o'r peilot hwn ac i chwilio am arianwyr cefnogol i allu ailadrodd a chynyddu'r ymyriad bach, ond pwerus hwn.

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Canfyddiadau eraill

Cefnogaeth Wych i Arddwriaeth yng Nghymru

Roedd llawer o'r tyfwyr yn awyddus i bwysleisio ansawdd y cymorth sy'n bodoli yng Nghymru ar gyfer garddwriaeth. Soniwyd am hyfforddiant/digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan Tyfu Cymru, digwyddiadau/cyllid a hwyluswyd gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, y cymorth sydd ar gael i dyfwyr yn y Canolbarth drwy'r prosiect Llwybrau at Ffermio/Mach Maethlon a chyfeiriwyd at Gynghrair Gweithwyr y Tir mewn perthynas â'u hymgyrch a'u gwaith polisi.

Ers 2017, mae Tyfu Cymru wedi canolbwyntio ar feithrin y sgiliau angenrheidiol i wella capasiti a gallu o fewn y diwydiant. Mae'n ymateb i anghenion uniongyrchol ac yn darparu arweinyddiaeth i roi'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i fusnesau ar gyfer twf gwyrdd a chynhwysol. Gyda chefnogaeth ymchwil gymhwysol a defnydd priodol o dechnoleg, mae wedi helpu nifer o dyfwyr a chwmnïau garddwriaeth sy'n eiddo i gynhyrchwyr ledled Cymru i addasu i heriau amgylcheddol a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad. Mae hefyd yn cynnal Cynghrair Garddwriaethol Cymru.

Hyd yn hyn, mae Tyfu Cymru wedi darparu dros 950 o ddiwrnodau hyfforddi ac wedi ymgysylltu â thros 1500 o weithwyr proffesiynol garddwriaethol ledled Cymru a thu hwnt. Yn benodol i'r diwydiant cynnyrch bwytadwy, mae Tyfu Cymru wedi darparu hyfforddiant a chymorth wedi'i ariannu'n gyfan gwbl i dros 250 o 280 o fentrau cynnyrch bwytadwy hysbys.

Mae Llafur a Recriwtio yn ffactor cyfyngol

Dywedodd tri o bob pump o'r tyfwyr fod recriwtio a thalu am staff yn broblem. Mae problem yn parhau o ran gallu recriwtio staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol a medrus, er bod gwaith da yn mynd rhagddo yng Nghymru i geisio mynd i'r afael â hyn.

Ers peth amser, mae tyfwyr yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU wedi nodi diffyg addysg a hyfforddiant arbenigol fel problem sy'n cyfyngu ar ddechrau gyrfa mewn garddwriaeth a chamu ymlaen yn yr yrfa honno, yn enwedig i'r rhai sydd am ddefnyddio dulliau organig neu amaeth-ecolegol. Un ymateb yw rhaglen arbenigol sy'n cael ei threialu fel rhan o Mannau Gwyrdd Gwydn - prosiect partneriaeth gwerth £1.27 miliwn sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i dreialu systemau bwyd amgen wedi'u hail-leoli gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel yr ysgogiad ar gyfer newid ledled Cymru hyd at fis Mehefin 2023. Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y ffrwd waith hyfforddiant mae Lantra yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad digyffelyb o hyfforddiant garddwriaeth yng Nghymru i ddatblygu pecyn hyfforddi peilot sy'n cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i redeg busnesau ffermio garddwriaethol. Darperir hyfforddiant mewn partneriaeth a phrosiect AGG Cae Tan a Chynghrair Gweithwyr y Tir. Mae hyn yn galluogi newydd-ddyfodiaid i fagu profiad a chael hyfforddiant, drwy gael eu lleoli gyda thyfwr profiad a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n dod â hyfforddeion at ei gilydd. Bydd yr hyfforddeion hefyd yn croesawu ymweliadau gan bobl ifanc, i ymchwilio i sut mae hyn yn dylanwadu ar ganfyddiadau o yrfaoedd mewn ffermio garddwriaeth fel rhan o ymchwil weithredu a gynhelir gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cyd-destun Polisi

Rydym yn wynebu her ddwbl yng Nghymru, sef cynhyrchu digon o lysiau a bwyta digon o lysiau. Mae cefnogi economïau gwledig, lleihau anghydraddoldebau iechyd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, diogelu a gwella bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch y cyflenwad bwyd yng Nghymru i gyd yn rhesymau pam mae creu cyfleoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi amrywiol a lleol ar gyfer garddwriaeth yn hanfodol.

Mae ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Lywodraethu a chytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llafur yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r cadwyni cyflenwi lleol hyn drwy addewid am Strategaeth Bwyd Cymunedol ac awydd amlwg i gynyddu faint o fwyd lleol sy'n mynd i ysgolion. Er mwyn cyflawni'r uchelgais o gynyddu cynhyrchiant a chyflenwad cynnyrch garddwriaethol domestig, mae buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi cadwyni cyflenwi agroecolegol yn un elfen allweddol.

Gellid datblygu mecanweithiau i gefnogi hyn drwy'r Strategaeth Bwyd Cymunedol neu'r Bil Amaethyddiaeth arfaethedig. Gallai camau gweithredu i gefnogi garddwriaeth ar raddfa fach fod yn hwb i ddatblygu ffyrdd amgen o gefnogi'r rhai ar incwm isel i gael mynediad at lysiau yn ogystal â chyfleoedd ehangach posibl ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus a masnachol.

Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion

Yn sgil dyfarnu ugain mil o bunnoedd i bum busnes ffrwythau a llysiau fel rhan o'r cynllun peilot hwn, gwelwyd twf o **74.5%** ar gyfartaledd mewn gwerthiant llysiau (gydag ystod o 30-133% ar gyfer 4 busnes) ynghyd â manteision niferus i'w cymunedau lleol a'r amgylchedd. Mae'r peilot hwn yn dangos y dylid ystyried cynllun grant seilwaith newydd ar gyfer garddwriaeth ar raddfa fach yng Nghymru. Byddai hyn yn cyflymu twf y sector yn sylweddol ac yn arwain at werthu mwy o lysiau ledled Cymru. Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf, byddai cynllun newydd yn elwa o fod ar raddfa sylweddol fwy, er enghraifft £750k y flwyddyn, a chynnig grantiau llawn rhwng £5k a £10k i 70-140 o dyfwyr y flwyddyn ar sail gystadleuol. Byddai'n elwa o gael ei weinyddu gan drydydd parti er mwyn sicrhau hyblygrwydd a'r gallu i addasu, er enghraifft prynu cyfarpar ail law. Byddai hyn hefyd yn sicrhau atebolrwydd, cynaliadwyedd a defnydd effeithiol o gyllid i gyflawni effaith.

Er mwyn i arddwriaeth dyfu, ochr yn ochr â chynllun grant seilwaith newydd, mae angen i sefydliadau yng Nghymru barhau â'u gwaith gyda'r nod o gefnogi'r sector a pharhau i fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant.

Ariannwyd y peilot hwn gan fenter Pys Plîs. Mae'r partneriaid prosiect yn cynnwys:

Gyda diolch i: